Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i’w Bwyta gan Bobl

Statws Wedi dod i ben
Dyddiad lansio 15 Gorffennaf 2020
Dyddiad cau 11 Medi 2020
Summary of responses
View Supply of wild Game consultation response as PDF (628.83 KB)

Yr ymgynghoriad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi lansio ymgynghoriad 8 wythnos ar y canllawiau diwygiedig i Gyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i’w Bwyta gan Bobl. Diweddarwyd y canllawiau i wella eglurder yn bennaf ynghylch gofynion Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt.

Nid yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn cynnwys unrhyw newid mewn polisi, yn hytrach mae'n rhoi mwy o eglurder ar Reoliadau'r UE ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt; yn bennaf ar gyfer yr helwyr, y proseswyr a'r manwerthwyr sy'n saethu ac yn cyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt.

Prif gynigion:

- Eglurder mewn perthynas â Rheoliadau'r UE ar eithriadau helwyr a manwerthwyr.
- Newid yng nghynllun y canllawiau gwreiddiol i’w gwneud yn haws eu darllen.
- Eglurder ar reoliadau cyfredol yr UE o fewn meysydd fel y bwtri helgig, cludiant, y gallu i olrhain, cynhyrchwyr cynradd a’r heliwr/parti hela.
- Cynulleidfa darged: mae'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt (helwyr a manwerthwyr), nid ar gyfer awdurdodau gorfodi cyfraith bwyd fel y mae'r canllawiau blaenorol yn ei awgrymu (er y gallant fod yn ddefnyddiol pan fyddant yn cynnal gwiriadau gorfodi).
- Terminoleg: mae'r term 'saethwr' wedi'i ddileu. Mae heliwr yn derm unigol sy'n cyfeirio at hela a saethu.

Bydd yr ymgynghoriad hwn fwyaf o ddiddordeb i

Helwyr Anifeiliaid Gwyllt, Sefydliadau Anifeiliaid Hela Gwyllt, Manwerthwyr Anifeiliaid Hela Gwyllt, Proseswyr Anifeiliaid Hela Gwyllt ac Awdurdodau Gorfodi.

Y pecyn ymgynghori

View Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl - Dogfen Ganllaw (Saesneg yn unig) as Word (1.61 MB)
View Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl - Dogfen Ymgynghori as Word (58.17 KB)

Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, rydym ni'n anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd a darparu dolen iddo o'r dudalen hon.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym ni'n trin data a ddarparwyd mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth EM. Os oes Asesiad Effaith wedi cael ei gynhyrchu, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os nad oes Asesiad Effaith wedi cael ei ddarparu, bydd y rheswm yn cael ei nodi yn y ddogfen ymgynghori.